

PANTON, PAUL (1727-1797), bargyfreithiwr a hynafiaethydd

Enw: Paul Panton

Dyddiad geni: 1727

Dyddiad marw: 1797

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bargyfreithiwr a hynafiaethydd

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Cyfraith

Awdur: Evan David Jones

Ganwyd 4 Mai 1727, yn fab hynaf Paul Patton (bu farw 1752), Bagillt, plwyf Treffynnon, o'i wraig Margaret, merch ac aeres Edward Gruffudd o'r lle hwnnw. Yng Nghonsyllt y preswyliai'r adran hon o deulu Patton, neu Panton, ond olrheinient eu hynafiaid trwy deulu Plas Pantwn (a brynwyd gan Paul Panton, ieu., yn 1811) i Farchweithian. Disgynnai teulu Gruffudd, Bagillt, o Ednywain Bendew, ac yr oedd y fam yn or-wyres i [John Jones, Gellilydy](#). Danfonwyd Paul Panton i Ysgol Westminster yn 1739/40, ac i Neuadd y Drindod, Caergrawnt, 25 Mehefin 1744. Ymaelododd yn y Brifysgol, 1746, ac yn Lincoln's Inn, 21 Rhagfyr 1744. Galwyd ef at y Bar, 14 Tachwedd 1749, a bu'n ymarfer â'i alwedigaeth am gyfnod. Ar Ddygwy Dewi 1756 priododd â Jane (1725 - 1764), ferch ac aeres William Jones, Plas Gwyn, Pentraeth (1688 - 1755), cofiadur Biwmares. Yr oedd ei mam hithau'n aeres stadau Derwen, sir Ddinbych, a Llywngwern, Llanuwchllyn. Yn ychwanegol at ei gyfrifoldeb ym mywyd cyhoeddus Môn fel ysgwier Plas Gwyn, a gymerai o ddifrif er llawenydd i'r Morrisiaid, yr oedd gan Paul Panton ddiddordeb ymarferol mewn glofeydd, mwynfeydd, a diwydiannau yn ardal Holywell. Ys dywedai [William Morris](#) wrth ei gymeradwyo i sylw ei frawd [Lewis](#) yn 1761, yr oedd yn 'mine mad.' Efe oedd arglwydd maenor Consyllt, a threuliodd ran helaeth o'i amser yn Sir y Fflint. Bu'n siryf Fflint yn 1770 a Môn yn 1771. Teithiodd lawer yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban, ac fel ei gyfaill, [Thomas Pennant](#), ymddiddorai mewn hynafiaethau. Cadwodd gysylltiad â'i gydefnyddwyr ar hyd ei oes, gan ymweled â hwy a'u cyfarfod yn achlysurol yn Bath neu Lundain. Casglai lawysgrifau, a daeth cyfran helaeth o bapurau [Wyniaid Gwydir](#), i'w feddiant (llawysgrifau N.L.W. 9051-69). Cymerai ddiddordeb yn llenyddiaeth gynnar Cymru, er nad oedd ei wybodaeth o Gymraeg yn drwyadl. Yn 1758 dangosodd [Evan Evans \('Ieuan Fardd' neu 'Ieuan Brydydd Hir'\)](#) gopi o waith [Taliesin](#) iddo. Buont yn gyfeillion am weddill oes y [Prydydd Hir](#) (a fu farw 1787), ac yn y diwedd, wedi i bob cynllun arall fethu, rhoes Panton flwydd-dâl o £20 iddo, ar y ddealltwriaeth fod ei gasgliad i fyned i'r Plas Gwyn ar ôl ei ddydd. Ymhen ychydig fisoedd, 29 Rhagfyr 1787, yr oedd y llawysgrifau yn ei feddiant (gweler llawysgrifau N.L.W. 1970-2068). Bardd arall a noddwyd ganddo ydoedd [Dafydd Thomas \('Dafydd Ddu Eryri'\)](#). Bu farw ei wraig 21 Mehefin 1764, a chladdwyd hi ym Mhentraeth. Bu iddynt bedwar plentyn: Jane (ganwyd 7 Ebrill 1757), Paul (ganwyd 8 Mawrth 1758), Jones (ganwyd 14 Awst 1761), ac Elisabeth Maria (ganwyd 2 Rhagfyr 1763). Priododd eilwaith, 6 Mehefin 1770, â Martha Kirk, gwraig weddw o Gaer (a fu farw yn Nhreffynnon, 27 Gorffennaf 1814, yn 82 oed), a bu iddynt ddau fab, Thomas (ganwyd 1771) a Bulkeley (ganwyd 1772). Bu farw 24 Mai 1797, a'i gladdu yn eglwys Holywell, lle y mae cofeb iddo o waith John Flaxman. Buasai ei unig frawd, Thomas, masnachydd yn Leghorn, farw y flwyddyn cynt.

Dilynodd PAUL PANTON, ieu. (1758 - 1822), yrfa debyg iawn i yrfa ei dad, ond iddo wneuthur ei gartref yn fwy yn y Plas Gwyn, gan wella a helaethu'r adeiladau yno. O 1765 i 1769 bu yn ysgol [Edward Owen](#), Warrington, ac o hynny hyd Fedi 1775 yn Ysgol y Brenin yng Nghaer (o dan Robert Vanbrugh). Derbyniwyd ef yn Lincoln's Inn, 22 Mawrth 1775, ond ni phreswyliodd yno tan fis Tachwedd 1777, gan iddo dreulio'r cyfamser ym Mhrifysgol Edinburgh. Yn Ionawr 1779 cyhoeddwyd llythrau ganddo o dan y ffugenw 'Monensis' ym mhapurau Caer, i arwain gwrthwynebiad i apwyntiad John Probert yn gasglydd rhenti'r brenin yng Ngogledd Cymru. Galwyd yntau at y Bar ym Mehefin 1781, a chadwodd ystafell yn Lincoln's Inn hyd 1794. Gweithredodd yn gyson am flynyddoedd ar gylchdaith y Sesiwn Fawr ym Môn, Arfon, a Meirion. Yn 1781 cyhoeddodd yn ddiennw, yn Llundain, *Free Thoughts on the Continuance of the American War ... by a Gentleman of Lincoln's Inn*. Apwyntiwyd ef yn 1793 yn ddosbarthwr stampiau yng Ngogledd Cymru (yn 1821 y rhoddwyd sir Ddinbych dan ei ofal). Bu'n arweinydd ym mywyd cyhoeddus Môn, fel dirprwy-raglaw a chyrnol gyda'r gwirfoddolwyr o 1803, ac uchelsiryf yn 1807. Bu'n uchelsiryf Sir y Fflint yn 1815. Efe oedd cadeirydd y cyfarfod o fonedd Môn a anfonodd ddeiseb yn erbyn hawliau'r Pabyddion ac a achosodd ddadl yn Nhy'r Cyffredin, 1813. Cymerai ddiddordeb, fel ei dad, yn hynafiaethau ac astudiaethau Cymreig, er nad oedd yn deall rhyw lawer o Gymraeg. Rhoes fenthyg llawysgrifau'r '[Prydydd Hir](#)' i [Owen Jones \('Owain Myfyr'\)](#) a [William Owen Pughe](#) at gyhoeddi'r *The Myvyrian Archaeology of Wales*, ac iddo ef y cyflwynwyd y gyfrol gyntaf yn 1801. Y bardd a gafodd fwyaf o'i nawdd ef oedd [D. Thomas \('Dafydd Ddu Eryri'\)](#) a chyflwynodd hwnnw ei lyfr *Corph y Gaingc* (Dolgellau, 1810) iddo. Teithiodd yntau lawer, ac ymddiddorai mewn cerddoriaeth ac argraffu. Gallai ganu'r crwth, a phrynodd argraffwasg fechan yn 1794. Bu farw yn ddibriad 24 Awst 1822, a disgynnodd ei feddiannau i'w chwiorydd a'i frawd JONES PANTON (1761 - 1837), siryf Môn, 1823, 1828; Fflint, 1827; a Meirion, 1830.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

The Records of the Honorable Society of Lincoln's Inn. Admissions, 1420–1893, etc., 1896; Black Books, 1422–1845 (1897–1902)

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 104

Thomas Pennant, *The history of the parishes of Whiteford and Holywell* (London 1796), 257-60, 277-8

NLW MSS 66, 1970-2068 (Llawysgrifau Panton yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth), 9051-9107 (papurau Panton), yn arbennig 9070-74, sy'n cynnwys gohebiaethau'r ddau Paul

papurau Plas Gwyn (Vivian), 1924

gweithredoedd Plas Gwyn (Vivian), 1929, yn cynnwys cytundebau priodas y teuluoedd

papurau Treffos (Vivian), yn arbennig 'Journal' Paul Panton (ieu.)

J. H. Davies, *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Môn) 1728-1765* (1907–9)

Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)* (London 1947-9)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Paul Panton](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13130596](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

